# Nodyn Gwybodaeth: Gosod Cylch Boncyffion

## Sefydlog neu Rydd?

- Mae llawer o ysgolion a grwpiau yn dewis gosod boncyffion fel man eistedd, mewn cylch fel rhan o'u seilwaith darparu dysgu yn yr awyr agored.
- Gellir gosod boncyffion yn barhaol neu eu gadael fel darnau y gellid eu rholio i'w lle yn ôl y gofyn.



## Cael gafael ar foncyffion

- Gellir cael gafael ar foncyffion o sawl lle. Rydych chi angen caniatâd y tirfeddiannwr cyn cymryd boncyffion.
- Mae'n syniad da cysylltu â rhieni yn y lle cyntaf - byddant yn dod o hyd i'r boncyffion ar eich rhan chi yn aml iawn!
- Efallai y bydd gan glybiau garddio lleol gysylltiadau da yn eich ardal.
- Rhowch gynnig ar adran cefn gwlad, parciau neu hyd yn oed adran peirianneg sifil eich cyngor gan eu bod yn aml yn gorfod cwympo coed am resymau iechyd a diogelwch.
- Efallai y bydd tyfwyr coed/ meddygon coed lleol yn gallu helpu hefyd.
- O bryd i'w gilydd bydd Cadwch Cymru'n Daclus, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru, Dysgu Drwy Dirweddau a sefydliadau tebyg yn cynnal prosiectau datblygu tiroedd ysgol.
- Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu darparu boncyffion gan fod pren yn cael ei werthu mewn blociau fel rhan o Strategaeth Coetir Llywodraeth Cymru.

## Maint a Siâp

- Dylai cylchoedd boncyffion fod o leiaf 3m mewn diamedr.
- Dyle bod pellter diogel o 1.5m o leiaf yn cael ei adael o ochr mewnol y cylch boncyffion i'r man canolog, ble gall tan fechan cael ei lleoli.
- Gall boncyffion fod yn grwn neu'n siâp hanner cylch a dylent fod yn rhai pren caled yn ddelfrydol, gan y byddant yn para'n hirach.

## Boncyffion Eistedd

- Dylid lleoli boncyffion i ffwrdd o adeiladau ysgol mewn man mor naturiol â phosibl, yn ddelfrydol ymysg coed os oes rhai yno.
- Dylid gosod boncyffion ar fan agored gwastad heb ganghennau isel yn hongian dros ganol y cylch. Mae hyn at ddibenion diogelwch tân os ydych yn gosod lle tân ac yn lleihau'r risg o rywun yn cael ei brocio yn y llygad.
- Dylid gosod boncyffion wrth ochr ei gilydd gan greu cylch cyflawn. Os oes angen mae opsiwn i adael bylchau i wneud lle i gadeiriau olwyn.
- Gellir cadw boncyffion yn eu lle drwy ddefnyddio pyst ffens hanner crwn fel pegiau ar y naill ochr a'r llall i bob boncyff. Ni ddylai pegiau sticio allan o'r boncyffion er mwyn atal defnyddwyr rhag anafu eu hunain ar y pegiau. Gellir gosod y pegiau yn sownd i'r boncyffion gyda hoelion.



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government